# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

## 2 MEHEFIN 2023

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: W.F.Griffiths, J.Hurley (Cynghorydd) a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

T.Rees, D.Griffiths, M.Roberts, J.Stevens, J.Woodman-Ralph, A. Collins, C.Morris, S.Cook a/ac M.Jones

**Gwahoddedigion:**

Cynghorwyr: S.Pursey a/ac T.Bowen

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd penodi'r Cynghorydd J Hurley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodi'r Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, diwygio'r Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy i gynnwys y cwmnïau canlynol gan eu bod wedi pasio'r asesiadau gofynnol:

| Cwmni | Categori |
|---|---|
| The Arb Team (T040) | 101 |
| NewSpace Containers Ltd (N018) | 10 |
| Crushed 2 Rubble (C075) | 77,102,111 |

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023.

8. **Y B4242 HEOL PONTNEATHVAUGHAN A'R STRYD FAWR (DIRYMU) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG) A (GWAHARDD AROS AR Y DROEDFFORDD AR UNRHYW ADEG) - GORCHYMYN 2023**

**Penderfyniadau:**

- Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, bod y gwrthwynebiad yn cael ei wrthod mewn perthynas â'r B4242 Heol Pontneathvaughan a'r Stryd Fawr (Dirymiad) (Gwahardd Aros,

Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg), a (Gwahardd Aros ar y Droedffordd ar Unrhyw Adeg) - Gorchymyn 2023.
- Rhoi'r cynllun ar waith, fel yr hysbyswyd, a'i fonitro wrth symud ymlaen.
- Hysbysu'r gwrthwynebydd o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Mae'r Gorchmynion yn angenrheidiol er mwyn atal parcio diwahaniaeth er budd diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023.

9. **YSTYRIED ARGYMHELLION Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR ADRODDIAD ADOLYGU OPSIYNAU PARCIO 2023**

Ystyriodd yr Aelodau y cynnig a dderbyniwyd gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Cymdogaeth, a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn, gan ychwanegu'r canlynol at yr argymhellion: 'bod oriau gweithredu'r parth cerddwyr yng Nghastell-nedd yn cael eu hadolygu yn y dyfodol.' Cytunwyd y byddai ymateb yn cael ei baratoi a'i anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu.

**Penderfyniad:**

Nodi'r adroddiad.

10. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

11. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

12. **CONTRACT TRIN GWASTRAFF BWYD**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr asesiad effaith integredig, cymeradwywyd y penderfyniad i wahardd Rheolau Gweithdrefnau Contractau (RhGC) y cyngor a dyfarnu contract dwy flynedd uniongyrchol i Biogen ar gyfer trin gwastraff bwyd, yn unol â'u dyfynbris o £42 o incwm fesul tunnell.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau triniaeth barhaus o wastraff bwyd a gesglir gan wneud incwm sylweddol uwch.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023.

13. **CAFFAEL CAPEL SOAR MAES-YR-HAF CASTELL-NEDD (EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo'r cynnig arfaethedig i gaffael y capel.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y cyngor yn caffael safle strategol, yn unol â'i gynigion cyffredinol i adfywio canol y dref.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023.

14. **ADLEOLI'R CERBYDLU - PENODI YMGYNGHORWYR (EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo dyfarnu contract Ymgynghorwyr uniongyrchol ar gyfer gwaith mewn perthynas ag adleoli'r cerbydlu casglu yng Ngorsaf Trosglwyddo Gwastraff Crymlyn Burrows, i SLR Consulting Ltd ar gyfer cyfnod o flwyddyn y prosiect ar gyfer gwasanaethau a nodir yn yr adroddiad.

Rhoi cymeradwyaeth i swyddogion gwblhau'r cytundeb angenrheidiol a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer Fframwaith EPSO y sector cyhoeddus at yr un dibenion.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Hwyluso cynnydd y gwaith i Adleoli'r Cerbydlu Casglu a gytunwyd yn flaenorol gan Aelodau a lleihau risgiau'r prosiect.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023.

**CADEIRYDD**